**Fideo 4** 'What is the Public Sector Equality Duty? | Equality law: discrimination explained', Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

**Irene:** Irene ydw i. Yn y fideo hwn, byddaf yn siarad am Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae fideos eraill y gyfres hon yn canolbwyntio ar hawliau unigol ac yn egluro nodweddion gwarchodedig ar ffurf ymddygiad anghyfreithlon. Mae'r sector cyhoeddus yn wahanol. Mae 'na ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus wrth weithredu swyddogaethau cyhoeddus.

Mae'r ddyletswydd yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus ystyried cydraddoldeb yn eu busnes o ddydd i ddydd. Mae'n canolbwyntio ar sicrhau fod sefydliadau'n newid i wneud y penderfyniad cywir o'r dechrau er mwyn osgoi gwahaniaethu ac anfantais. Y nod yw i gydraddoldeb ddod yn rhan annatod o'r proses wrth i'r sector cyhoeddus ddarparu gwasanaethau a gosod polisïau.

Mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus yn y Ddeddf Cydraddoldeb, a phob corff sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus a restrir yn Atodlen 19 Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ogystal â'r rhai sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus.

Beth yw'r ddyletswydd? Yn eu gwaith o ddydd i ddydd, wrth osod polisïau a darparu gwasanaethau, mae'n rhaid i sefydliadau talu sylw i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da. Felly, mynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth.Mae'n bwysig nodi mai'r ddyletswydd yw rhoi sylw dyledus i'r gwahanol anghenion hyn, er enghraifft, yr angen i ddileu gwahaniaethu. Nid yw'n ddyletswydd i ddileu gwahaniaethu ei hun. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys wyth nodwedd warchodedig gan gynnwys priodas a phartneriaeth sifil, mewn perthynas â'r ddyletswydd peidio â gwahaniaethu yn unig.

Mae dyletswydd gyffredinol ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i dri angen wrth weithredu eu swyddogaethau cyhoeddus. Yr anghenion yw: dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad a waherddir gan, neu o dan y ddeddf.

Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl sy ddim yn ei rhannu. Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl sy ddim yn ei rhannu.

Mae dyletswydd yn gofyn am fwy na meddwl am gydraddoldeb yn unig. Mae'n rhaid cynnal asesiad effaith ar bolisïau newydd a chymryd camau tuag at leihau effeithiau niweidiol posibl.

Mae'n rhaid i hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n bwysig gan mai'r ddyletswydd yw rhoi sylw dyledus i'r tri angen i ddileu gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da. Mae'r gofynion yn dibynnu ar yr hyn sy'n berthnasol a'r hyn sy'n gymesur.

Yn ogystal â'r ddyletswydd gyffredinol honno, mae gan rai cyrff cyhoeddus ddyletswyddau penodol hefyd. Mae'r dyletswyddau penodol hyn yn gamau sy'n helpu cyrff cyhoeddus i ddangos sut y maent yn bodloni'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r dyletswyddau penodol yn wahanol yn yr Alban, Cymru a Lloegr. Yn yr Alban, er enghraifft, mae'r dyletswyddau penodol yn cynnwys dyletswydd i osod canlyniadau cydraddoldeb, dangos sut mae cydraddoldeb yn cael ei ymgorffori yng ngwaith bob dydd y sefydliad, ac i asesu effaith polisïau ac arferion.

Yng Nghymru, er enghraifft, mae'r dyletswyddau'n cynnwys gosod amcanion, cynlluniau cydraddoldeb strategol, asesu effaith ac ystyried gwahaniaethau mewn cyflog. Yn Lloegr, dim ond dwy ddyletswydd sydd, sef gosod un amcan neu fwy, a chyhoeddi gwybodaeth sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd gyffredinol.

Mae'r dyletswyddau penodol yn wahanol yn yr Alban, Cymru a Lloegr. Nid yw Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn rhoi hawliau i unigolion yn yr un modd â hawliadau gwahaniaethu a ddisgrifir yn rhannau eraill y gyfres hon.

Ond gallwch herio gweithredoedd awdurdod cyhoeddus drwy adolygiad barnwrol. Os ydych yn credu bod yr awdurdod wedi methu ag ystyried y ddyletswydd cyn gwneud penderfyniad, neu wrth fabwysiadu polisi sy'n effeithio arnoch chi, neu os oes gennych gŵyn gwahaniaethu yn erbyn awdurdod cyhoeddus, yn seiliedig ar yr ymddygiad gwaharddedig a nodir yn y gyfres hon, gellir defnyddio dyletswydd cydraddoldeb i'w gefnogi.

Ni ellir defnyddio Adolygiad Barnwrol i orfodi dyletswyddau penodol, ond mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bwerau gorfodi.

Gorfodaeth. Gall unrhyw berson, gan gynnwys y Comisiwn, wneud cais am adolygiad barnwrol o gorff cyhoeddus sy'n methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd

gyffredinol. Gall y Comisiwn orfodi'r dyletswyddau penodol trwy ei bwerau statudol. Ond gallai methu , chydymffurfio ,dyletswyddau penodol ddarparu tystiolaeth o fethiannau mewn perthynas a'r ddyletswydd gyffredinol.

Diolch am wylio.

[Testun ar sgrin]

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.equalityhumanrights.com Os oes angen gwybodaeth, cyngor a chymorth arbenigol arnoch ynglyn , materion gwahaniaethu a hawliau dynol, ffoniwch y Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS) ar 0808 800 0082.